# LC1220

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Rheoliadau Pontio Rhwng yr Ysgol Gynradd a'r Ysgol Uwchradd (Cymru) 2006

Mae adran 198 o Ddeddf Addysg 2002 yn galluogi Cynulliad Cenedlaethol i'w gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion uwchradd a gynhelir yng Nghymru a'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo fynd ati ar y cyd i lunio cynlluniau ("cynlluniau pontio") a fydd yn hwyluso cyfnod pontio disgyblion rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd. Mae'r Rheoliadau yma'n ymwneud ag amseru, cynnwys, adolygu a diwygio cynlluniau o'r fath.

## Rheol Sefydlog 11.7

Cafodd y Cynghorwyr Cyfreithiol gyfle i graffu ar ddrafft cynharach o'r Rheoliadau yma. Oherwydd hynny, mae pwyntiau a allai fod wedi bod yn destun adroddiad wedi'u cymryd i ystyriaeth yn y drafft cyfredol a does dim pwyntiau wedi'u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

## Sylwadau

Mae pwyntiau fformadu, sy'n addas i'w cywiro wrth gyhoeddi'r Rheoliadau, wedi'u mynegi i'r cyfreithiwr a'u drafftiodd.

**David Melding AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**14 Chwefror 2006**